Adran Gwaith a Phensiynau

# Cyflwyniad i **Gredyd Cynhwysol**

Hawdd i'w Ddarllen



Ein cyfeirnod: **UCERW1** 01/22

# Cynnwys


1

**Cyflwyniad**

Tudalen 3

2




**Mae Credyd Cynhwysol wedi disodli 6 budd-dal**

Tudalen 5

3

**Budd-daliadau eraill a Chredyd Cynhwysol**

Tudalen 7

4



**Cysylltwch â ni**

Tudalen 10

# 1 Cyflwyniad

Adran Gwaith a Phensiynau

Mae Credyd Cynhwysol yn fudd-dal o'r Adran Gwaith a Phensiynau.




Mae'n helpu i dalu'ch costau bywyd bob dydd.

UC Credyd Cynhwysol

Efallai y gallwch gael Credyd Cynhwysol os:

- Rydych chi allan o waith
- Rydych chi mewn gwaith ac mae gennych enillion isel.

Bydd y mwyafrif o geisiadau budd-dal newydd ar gyfer Credyd Cynhwysol.


## Lle rydych yn byw



I gael Credyd Cynhwysol, mae'n rhaid i chi fyw yn Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban neu Gymru.

I gael mwy o wybodaeth am Gredyd Cynhwysol a ble rydych chi'n byw, ewch i www.gov.uk/credyd-cynhwysol

# 2 Mae Credyd Cynhwysol wedi disodli 6 budd-dal:




- Credyd Treth Plant
- Credyd Treth Gwaith
- Budd-dal Tai




- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn berthnasol i incwm.



Os ydych chi'n cael 1 neu fwy o'r budd-daliadau hyn nawr, dywedir wrthych pryd i symud i Gredyd Cynhwysol yn y dyfodol.



Pan ddaw'n amser symud i Gredyd Cynhwysol, byddwn yn cysylltu â chi.



Os bydd eich amgylchiadau'n newid cyn i ni gysylltu â chi, rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl.

I ddod o hyd i fanylion cyswllt ar gyfer budd-daliadau, ewch i www.gov.uk/cysylltu-canolfan-byd-gwaith/ceisiadau-presennol-am-fudddal

I ddod o hyd i fanylion cyswllt ar gyfer credydau treth, ewch i www.gov.uk/government/organisations/hm-revenue-customs/contact/welsh-language-helplines

# 3 Budd-daliadau eraill a Chredyd Cynhwysol



**Ni fydd** rhai budd-daliadau'n newid faint o Gredyd Cynhwysol a gewch.

canolfanbydgwaith

Adran Gwaith a Phensiynau

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Taliad Annibyniaeth Personol
- Lwfans Byw i'r Anabl
- Budd-dal Plant a rhai eraill.



Mae yna fudd-daliadau a **all newid** faint o Gredyd Cynhwysol a gewch.

canolfanbydgwaith

Adran Gwaith
a Phensiynau

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth Dull Newydd
- Lwfans Ceisio Gwaith Dull Newydd

Adran Gwaith
a Phensiynau

- Lwfans Profedigaeth
- Lwfans Mamolaeth
- Budd-daliadau Anafiadau Diwydiannol.



Canllaw yn unig yw'r enghreifftiau budd-daliadau hyn.

Byddwn yn dweud wrthych yn union sut mae'ch budd-daliadau eraill yn effeithio ar Gredyd Cynhwysol pan fyddwn yn cysylltu â chi.

# Os ydych yn cael premiwm anabledd difrifol ac yn symud i Gredyd Cynhwysol



Os ydych yn cael premiwn anabledd difrifol efallai gallwch gael **amddiffyniad trosiannol** wrth symud i Gredyd Cynhwysol.

**Esboniad**

Mae **amddiffyniad trosiannol** yn daliad ychwanegol i'ch helpu pan fyddwch yn symud i Gredyd Cynhwysol.





Bydd y rhan fwyaf o bobl yn cael y taliad hwn ar unwaith, ond efallai y bydd angen i rai wneud cais amdano.

I gael gwybodaeth am **amddiffyniad trosiannol**, ewch i www.gov.uk/cyflyrau-iechyd-anabledd-credyd-cynhwysol

# 4 Cysylltwch â ni




Mae'r rhan fwyaf o bobl yn cysylltu â Chredyd Cynhwysol gan ddefnyddio ein gwasanaeth ar-lein.





Efallai bod gennych chi anabledd sy'n golygu na allwch ddefnyddio cyfrifiadur.



Os oes angen help arnoch ac na allwch gael mynediad i'n gwasanaeth ar-lein, cysylltwch â'r **llinell gymorth Credyd Cynhwysol**.




Mae’r llinell gymorth ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 6pm.



Ffôn: **0800 328 5644**

Ffôn testun: **0800 328 1344**



Iaith Gymraeg: **0800 328 1744**



Os ydych yn fyddar ac yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, efallai gallwch chi ddefnyddio'r **Gwasanaeth Cyfnewid Fideo** (a elwir VRS).



Os na allwch glywed na siarad ar y ffôn gallwch ddefnyddio Relay UK:

**18001** yna **0800 328 5644**

Arferai Relay UK gael ei alw'n Testun y Genhedlaeth Nesaf (NGT).

I gael mwy o wybodaeth am bwy i gysylltu â nhw, ewch i [www.gov.uk/credyd-cynhwysol/cysylltu-credyd-cynhwysol](www.gov.uk/credyd-cynhwysol/cysylltu-credyd-cynhwysol)

I gael mwy o wybodaeth am Gredyd Cynhwysol ewch i [www.gov.uk/credyd-cynhwysol](www.gov.uk/credyd-cynhwysol)